

**Sut allwn ni wella safon gwaith disgyblion trwy ddefnyddio dulliau asesu
ar gyfer dysgu i gefnogi'r meini prawf llwyddiant mewn dosbarthiadau CA2?**

Yr Athro Ymholgar

1701013

16/04/2018

5,803

MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	Sioned Raymond	Rhif P y myfyriwr:	1701013
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	Yr Athro Ymholgar	Lefel y Modwl (6 neu 7):*	7
Cod y modwl:*	M7X2152C	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):*	100%
Arweinydd modwl:*	Catherine Morgan		
Teitl yr Aseiniad:	Ysgrifennwch draethawd beirniadol a dadansoddol sy'n trafod eich ymchwil 'astudiaeth gwers' mewn perthynas â'ch maes dewisol.	Rhif yr Aseiniad (x o x):*	1/1
Dyddiad cychwyn:*	09/01/18	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:*	16/04/18
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*			

Cyfeirnod:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnod i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, teitl y llyfr, argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol. Sylwer: y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	Dyddiad:	16/04/18

Dylai'r arweinydd modwl roi dic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.	IE	
	NA	✓

Deilliannau Dysgu a brofir (o faes llafur y modwl)	Meini Prawf Asesu: I gyflawni pob deilliant, rhaid i fyfyrwr ddangos y gallu i:
- Dylunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol gan arddangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol - Cynnal ymholiad ymchwil ar raddfa fach i wella agwedd ar ymarfer a chanlyniadau personol, gan ddangos peth gwreiddioldeb a thrylwyrdd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol - Gwerthuso tystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn o ddata cymhleth i gefnogi penderfyniadau addysgeg - Myfyrion'n feirniadol ar bwysigrwydd gweithdrefnau moesegol ym maes ymchwil yn yr ystafell ddosbarth, ac yn cymhwyso'r gweithdrefnau hyn yn briodol	- Drafod y casglu data proffesiynol a fwriedir gan gyfiawnhau ei addasrwydd a phwrrpas; - Gefnogi'r astudiaeth drwy gyfeirio at ystod o lenyddiaeth addas; - integreiddio theori ac ymarfer o ran y cyd-destun addysgol; - Gynnal gwerthusiad beirniadol o'r astudiaeth; - Drafod y materion moesegol y dylid eu hystyried yn ystod yr astudiaeth; - Ysgrifennu'n gydlynol o fewn strwythur addas.

MEINI PRAWF AC ADBORTH MYFYRWYR

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y meini prawf asesu. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich gradd. Dangosir y pwysiad sydd ar gael ar gyfer pob maen prawf. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	Y radd a ddyfarnwyd
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc) Ehangder y gwaith ymchwil a/neu eich gwaith darllen eich hun, dethol adnoddau credadwy, defnyddio arferion cyfeirnod priodol. Ehangder y wybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r egwyddorion sy'n sail i ac yn gysylltiedig â'r ddisgyblaeth.	
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad) Dadansoddiad, gwerthusiad a synthesis; rhesymeg, dadl a phenderfyniadau; adfyfrio dadansoddiad; trefn syniadau a thystiolaeth.	
3. Cymwysiadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol) Defnydd o ddulliau addysgol, deunyddiau, offer a thechnegau; cymhwyso cysyniadau; llunio datrysiadau arloesol a chreadigol i ddatrys problemau. Priodoleddau arfer proffesiynol: gweithio fel unigolyn neu yn gydweithredol.	
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol Defnydd o gyfryngau priodol; cyflwyno a threfnu.	

--	--

Marc yr Aseiniad (Mae marciau'r asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r graddau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (rhowch dic os ydy'n berthnasol)	
	Hyd at un wythnos yn hwyr	D (uchafswm)
	Mwy nag un wythnos yn hwyr	Methu

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO'N DDA YNDDYNT	RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU
Gweithio mewn grŵp. Casglu tystiolaeth gadarn. Adlewyrchu ar gyfer tro nesaf. Darllen llenyddiaeth briodol a pherthnasol a'u cysylltu.	Dadansoddi yn well.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	CYFEIRIO		D	C	B	A
	METHU'N LLWYR	ANFODDHAOL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llynyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwn)	☐	☐		X	☐	☐
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)	☐	☐	X	☐	☐	☐
3. Cymwysiaidau Pedagogaidd a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)	☐	☐	☐	X	☐	☐
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol	☐	☐	☐	X	☐	☐

Enw'r myfyriwr	Sioned Raymond	Dyddiad	13/04/2018
Llofnod y Myfyriwr	SRaymond		

Sut allwn ni wella safon gwaith disgyblion trwy ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu i gefnogi'r meini prawf llwyddiant mewn dosbarthiadau CA2?

Y pwrpas

Y mater sydd o ddiddordeb yw'r berthynas rhwng dulliau asesu (sy'n cynnwys hunanasesu ac asesu cyfoedion) a llwyddiant disgyblion CA2 o ran cyflawni'r meini prawf. Yr oedd hunanasesu ac asesu cyfoedion yn amlwg iawn yn yr ysgol yr oeddwn ystod fy mhrofiad addysgu cyntaf ac yn yr ysgol ble oeddwn yn ystod y cyfnod pontio.

Fel athrawes dan hyfforddiant sydd heb lawer o brofiad dysgu roedd y mater hwn yn ddiddorol i arsylwi yn fanwl er mwyn dadansoddi'r pwysigrwydd o hunanasesu ac asesu cyfoedion a'r angen i bwysleisio'r meini prawf llwyddiant i wella safon gwaith disgyblion. Penderfynwyd ffocysu ar y mater yma oherwydd mae'r dulliau asesu yn hynod o bwysig a defnyddiol er mwyn i ddisgyblion cyflawni. Mae pennu meini prawf yn gosod y disgwyliadau ar gyfer y disgyblion er mwyn iddynt fod yn ymwybodol ohonynt ac asesu eu cyflawniadau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010b).

Cyd-destun

Fy mwriad oedd dysgu ac arsylwi dwy wers er mwyn astudio'r berthynas rhwng dulliau asesu a llwyddiant o ran y meini prawf a fydd yn cefnogi fy ngwaith ymchwil. Yr oedd y ddwy ohonom mewn cytûn i ofyn y disgyblion i hunanfarcio a marcio gwaith eu cyfoedion. Teimlon byddwn yn casglu tystiolaeth gadarn wrth inni wneud hyn ac rydym wedi arsylwi a defnyddio'r dulliau yn barod yn ein hysgolion felly na ddylai'r disgyblion cael trafferth wrth farcio. Un wers (1 awr) oedd gennym yn

y ddwy ysgol i gasglu tystiolaeth ac arsylwi felly yr oedd angen sicrhau byddem yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon yn ystod y cyfnod byr.

Diffiniwyd bod y term 'asesiad' yn darparu gwybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio i newid ac addasu'r modd mae'r athro/athrawes yn addysgu a sut mae'r disgyblion yn dysgu (Black a Wiliam, 1998). Mae'r math o asesiad yn cael ei enwi yn 'asesiad ffurfiannol'. Diffiniad Shepard et al. o asesiad ffurfiannol yw: "assessment carried out during the instructional process for the purpose of improving teaching or learning." (2005: 275). Wrth gasglu'r wybodaeth mae'r athrawon yn ymwybodol o'r pethau sydd angen newid er mwyn cwrdd ag anghenion y disgyblion.

Cytunais gyda fy mhartner i ddysgu gwers llythrennedd a phennu meini prawf addas i ofynion y dasg gyda heriau er mwyn i'r disgyblion anelu i wella'u gwaith. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddosbarthiadau CA2 yn ôl tri rheswm. Teimlom bydd disgyblion CA2 yn fwy abl a phrofiadol, dosbarth yn CA2 oedd ein profiad diweddaraf ac mae gwell gennym ni i weithio gyda CA2 yn y dyfodol.

Nododd Donaldson (2015) yn ei adroddiad bydd ein cwricwlwm newydd yn annog plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Mae'r dull hwn yn cefnogi datblygu nifer o agweddau ar un o bedwar diben y cwricwlwm. Dadleuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod hunanasesu ac asesu cyfoedion yn arfer cadarnhaol a'u bod yn elwa o'r profiad yn hytrach na'u dioddef. Rhestrodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nifer o resymau am ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu sy'n nodweddion a fydd yn dylanwadu ar addysg disgyblion:

[Assessment for learning] promotes an understanding of goals and success criteria so that learners understand what they are trying to achieve and want to achieve it; Helps learners know how to improve; Develops learners' capacity for self-assessment and fosters reflective learning; [and] Fosters learner motivation. (2010a: 11).

Mae asesu ar gyfer dysgu yn dod yn fwy a mwy pwysig ac yn cael eu cynnwys ym mhob gwers.

Ymchwil blaenorol

Darllenwyd nifer o lyfrau, dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru a deunyddiau eraill er mwyn ystyried ymhellach y dylanwad mae hunanasesu ac asesu cyfoedion yn cael ar waith disgyblion. Dengys bod yna cydberthynas arwyddocâd rhyngddynt. Yn benodol, nododd William (2007) bod asesiad ffurfiannol yn cael effaith allweddol ar addysg plant. Casglodd Wiliam (2007) nifer o dystiolaeth wrth ymchwilwyr eraill a wnaeth astudiaethau penodol sy'n ymwneud â chodi cyflawniad disgyblion. Atododd tabl sy'n dangos ac yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd o asesiad ffurfiannol, sef uchod:

Intervention	Extra months of learning gained per year	Classroom cost per year
Reducing class size by 30% (for example, from 30 to 20 pupils)	3	\$30,000
Increase teacher content knowledge from weak to strong	1.5	Unknown
Formative assessment	6 to 9	\$3,000

Pwysleisiodd Wiliam (2007) gall asesiad ffurfiannol cyson codi safonau dealltwriaeth a dysgu a fydd yn sicrhau cyflawniad gwell. Mae ymchwil gan Natriello (1987) a Crooks (1988) yn pwysleisio bod defnydd cyson o asesiad ffurfiannol yn cael effaith sylweddol ar gyflawniad disgyblion ac mae'n allweddol i fonitro cynnydd disgyblion.

Daeth Black a Wiliam (1998) i'r casgliad gall defnydd aml o asesiad ffurfiannol godi cyrhaeddiad disgyblion o 0.4 i 0.7 o wyriadau safonol sy'n cefnogi Wiliam (2007). Yn eu hadroddiad, nodwyd bod eu hastudiaethau (tua ugain ohonynt, gyda phlant 5 blwydd oed i fyfyrwyr Prifysgol mewn amrywiaeth o wleidydd) yn dangos effaith cadarnhaol o asesiad ffurfiannol: "All of these studies show that innovations which include strengthening the practice of formative assessment produce significant, and often substantial, learning gains" (Black a Wiliam 1998: 3). Canlyniad arwyddocaol sydd gwerth ei olygu yw bod gwella'r amllder o asesiad ffurfiannol yn helpu'r cyrhaeddwy'r isel yn fwy na'r gweddill tra hefyd yn ei godi yn gyffredinol. Er ein bod yn canolbwyntio ar hunanasesu ac asesu cyfoedion mae'n hynod o werthfawr i asesu'r math o strategaeth. Dadleuodd Black a Wiliam yn yr un adroddiad: "Many of the successful innovations have developed self- and peer-assessment by pupils as ways of enhancing formative assessment, and such work has achieved some success with pupils from age five upwards" (1998: 9). Maent yn dadlau bod hunanasesu yn elfen hanfodol o asesiad ffurfiannol er mwyn i'r disgyblion ddeall amcanion eu dysgu ac o ganlyniad gafael beth yn union maent eu hangen i gyflawni. Canmolwyd arfer da yn Ysgol Gymunedol Doc Penfro gan Estyn. Seliwyd strategaeth addysgu a dysgu ar ymchwil yr Athro John Hattie ar ddull dysgu gweladwy. Cyflwynwyd y strategaethau canlynol er mwyn annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu dysgu a dod yn fwy medrus i asesu eu gwaith eu hunain:


- Annog disgyblion i weld dysgu fel gwaith caled, gyda meddylfryd i dyfu ac awydd i lwyddo.
- Annog disgyblion i ddeall beth yw'r bwriadau dysgu a phwysigrwydd cael eu herio gan y meini prawf llwyddo.
- Galluogi disgyblion i ddefnyddio offer effeithiol ar gyfer hunanasesu a'u herio eu hunain yn dda i wella.
- Defnyddio asesu effeithiol ar gyfer dysgu, ac o ddysgu. Mae gan yr ysgol bolisi marcio hynod lwyddiannus fel bod athrawon yn rhoi adborth cyson ac effeithiol i ddisgyblion. (Estyn 2016).

Nododd Estyn bod hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau dysgu'r disgyblion. Dywed bod y disgyblion yn dysgu'n fwy annibynnol ac yn ymgeisio i ddysgu a chymryd heriau er mwyn gwella eu gwaith. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u hanghenion dysgu ac yn awyddus iawn i lwyddo ac yn gwybod sut i wneud hyn. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'r adborth i addasu eu gwersi a'u disgwyliadau i gynorthwyo addysg y disgyblion i ddatblygu. Dyma enghraifft o ddefnydd da o asesiad ffurfiannol sy'n canolbwyntio ar lais ac anghenion y dysgwyr i addasu a theilwra'r dysgu i ddealltwriaeth a chyflawniadau'r disgyblion.

Mae'r adroddiad yma a gyhoeddwyd gan Estyn a'r darllen eraill yn cefnogi fy nghwestiwn ymchwil. Hoffwn ddangos bod yna cydberthynas allweddol rhwng disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion a llwyddiant i gwblhau'r meini prawf llwyddiant sy'n annog disgyblion i gyflwyno gwaith o safon uchel.

Y fethodoleg

Er mwyn casglu tystiolaeth o'r gwersi defnyddiwyd astudiaethau gwrs, sy'n fath o ymchwil gweithredol. Penderfynwyd gwneud astudiaethau gwrs oherwydd mae'n digwydd mewn amgylchedd dysgu gyda disgyblion go iawn ac mae wedi datrys nifer o ymholiadau athrawon (Dudley, 2014). Canolbwyntiasom ar ymchwil Dudley er mwyn sgaffaldio ein hymchwil. Nodwyd dylai astudiaeth gwrs cynnwys cylchred er mwyn sicrhau bod yr astudiaeth gwrs y fwyaf effeithiol a gwerthfawr. Mae'r ffigur isod yn dangos y cylchred dilynwyd gennym:



Cynllunio gwersi

Dengys ymchwil gan Black a Wiliam (2009) bod asesiad ffurfiannol yn cynnwys pum strategaeth allweddol, sef:

1. Egluro a rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant
2. Ddarparu trafodaethau dosbarth effeithiol a thasgau dysgu eraill sy'n canfod tystiolaeth o ddealltwriaeth myfyrwyr (gall hwn cynnwys cwestiynu ar gyfer dysgu)
3. Roi adborth sy'n symud dysgwyr ymlaen
4. Ysgogi myfyrwyr fel adnoddau cyfarwyddyd ar gyfer ei gilydd (hunanasesu); ac
5. Ysgogi myfyrwyr fel perchnogion eu dysgu eu hunain (asesu cyfoedion).

Blaenoriaethwyd y prif strategaethau i asesu yn effeithiol a wnaeth ein cynorthwyo i gynllunio ein gwersi er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu disgwyliadau ac i gyflawni ein pwrpas i ateb y cwestiwn ymchwil.

Pwysleisiodd Black a Wiliam "...pupils can only assess themselves when they have a sufficiently clear picture of the targets that their learning is meant to attain ... When pupils do acquire such overview, they then become more committed and more effective as learners" (1998: 9-10). Er inni wneud ychydig o ddarllen cyn y gwersi ymchwil penderfynom fod angen i'r disgyblion pennu'r meini prawf eu hunain fel

dosbarth i sicrhau dysgu a dealltwriaeth arwyddocaol yn hytrach na roi'r meini prawf iddynt. I atgyfnerthu'r pwysigrwydd o'r arfer hwn, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Rhaid i'r meini prawf fod yn dryloyw i'r dysgwyr ac mae'n cael eu deall a'u defnyddio'n fwyaf effeithiol gan ddysgwyr os oedden nhw'n rhan o'u llunio ... Er mwyn i asesu cyfoedion a hunanasesu fod yn ystyrlon, rhaid i ddysgwyr ddeall a chymryd rhan wrth lunio meini prawf llwyddiant. Fel arall, nid oes unrhyw fframwaith cyfeirio ganddyn nhw i asesu yn ei erbyn ac mae'r adborth yn ddiystyr ac ar lefel isel! (2010b: 26).

Nes ymlaen maent yn cydsynio:

Mae'n amlwg bod rhaid i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf llwyddiant os ydyn nhw am asesu'n fanwl gywir, yn effeithiol a bod hyn o gymorth iddyn nhw. Erbyn hyn rydym yn gwybod os yw dysgwyr am gymryd cyfrifoldeb dros eu cynnydd eu hunain, mae'n rhaid iddyn nhw wybod y meini prawf y cânt eu hasesu yn eu herbyn ... Fel arfer bydd dysgwyr yn creu meini prawf llwyddiant o ansawdd gwell pan fyddan nhw'n **gweithio ar y cyd**. (2010b: 27).

Cynlluniwyd ein gwersi i ganiatáu'r disgyblion i bennu'r meini prawf llwyddiant oherwydd mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod y disgyblion yn elwa o'r arfer yma.

Er mwyn inni asesu'r disgyblion, gofynnem iddynt hunanfarcio yn gyntaf ac wedyn ar ôl deg munud o ysgrifennu gofynnem i farcio gwaith eu cyfoedion. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010b) dyma'u diffiniadau a'u gwerth:

Hunanfarcio:

Mae dysgwyr yn marcio eu gwaith eu hunain gan ddefnyddio eu meini prawf llwyddiant neu gynlluniau marcio eu hunain. Mae'n fwyaf effeithiol os yw dysgwyr wedi cyfrannu at ddatblygu'r meini prawf llwyddiant neu hyd yn oed wedi datblygu eu cynllun marcio eu hunain a'i gymharu â'r fersiwn cyhoeddedig. Drwy wneud hyn gall y dysgwyr ddeall y drefn asesu a chwilio am ffyrdd i wella gwaith presennol a gwaith yn y dyfodol. Ar ei lefel symlaf, gellir gofyn i'r dysgwyr nodi'n union pa ran o'u gwaith maen nhw'n fwyaf balch ohoni. (82).

Marcio cyfoedion:

Mae dysgwyr yn marcio neu'n rhoi sylwadau ar waith ei gilydd. Gall fod yn effeithiol iawn ... yn enwedig os yw'r meini prawf llwyddiant yn glir ac wedi cael eu trafod cyn i'r gwaith ddechrau. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dulliau, gan gynnwys parau o ddysgwyr yn ysgrifennu ychydig o destun, er enghraifft, a phâr arall yn asesu cyfoedion yn erbyn meini prawf cytûn a chyffredin. Mae'r ddau bâr yn esbonio eu gwerthusiadau ac yn awgrymu un gwelliant penodol. Mae'r phâr gwreiddiol yn gwneud o leiaf un gwelliant penodol. (69).

Dewiswyd defnyddio'r dulliau rhain er mwyn cael tystiolaeth ysgrifenedig gan bawb i ddangos eu bod wedi hunanasesu ac asesu cyfoedion yn gywir ac effeithiol .

Arsylwi

Y dulliau a ddefnyddiwyd oedd arsylwi, cymryd nodiadau adfyfyriol a chynnal cyfweiliad gyda nifer penodol o ddisgyblion. Gwelir atodiad 1 i weld fformat y nodiadau adfyfyriol a ddefnyddiwyd. Teimlom yr oedd y fformat hwn yn gyfleus ac yn addas er mwyn inni ganolbwyntio ar y disgyblion ffocws yn dda ac i ffocysu ar y pethau penodol (fel faint o bwyslais oedd yr athrawes yn rhoi ar y meini prawf llwyddiant yn ystod y wers). Dywedodd Herr (1998) bod arsylwi rhestr wirio yn ddull da er mwyn nodi'n gyflym ac maent yn hawdd defnyddio a dadansoddi. Nododd yn ei phennod:

Checklists are designed to record the presence or absence of specific traits or behaviours. They are easy to use and are especially helpful when many items need to be observed ... checklists may be developed to survey one child or a group of children. (1998: 59).

Fodd bynnag mae'n nodi bod anafanteision wrth ddefnyddio rhestr wirio, gan gynnwys diffyg o wybodaeth. Er mwyn ein rhwystro rhag bod dan anfantais, cynhwyswyd digon o le i nodi unrhyw wybodaeth allweddol o'n harsylwadau.

Mae ein hymchwil yn casglu data ansoddol a oedd yn addas ar gyfer ein hymchwil oherwydd nad oeddem yn casglu data rhifiadol. Yr hyn yr oeddem am ei chasglu oedd cymhellion a rhesymau i'n hymholiad penodol ar wella cyflawniadau

dysgu trwy hunanasesu ac asesu cyfoedion felly yr oedd y dulliau yn briodol. Cyn dechrau'r wers wnaethom nodi'r disgyblion a thrafod am ein disgwyliadau am y disgyblion penodol er mwyn sicrhau bod y ddwy ohonom yn gwbl glir am weddill y wers.

Cyfweliad

Gwnaeth Danby et al. sôn yn gyffredinol am y manteision o gynnal cyfweliadau:

The method of the research interview has become influential and a useful tool to allow researchers to access topics that, although potentially relevant to children, may not necessarily occur naturally in conversations and therefore be unable to be observed. (2011: 4).

Bwriad y cyfweliad oedd gwybod am brofiadau'r disgyblion ar ôl inni ddefnyddio'r dulliau asesu a'u dealltwriaeth o feini prawf llwyddiant (Breen, 2006). Penderfynwyd cynnal cyfweliadau gyda phedwar disgyblion o'r ddwy ysgol er mwyn cael digon o syniadau, trafodaeth a thystiolaeth i nodi. Cynhaliwyd y cyfweliad mewn modd anffurfiol a naturiol lle mae plant yn rhydd i roi eu barn a siarad ag aelodau arall o'r grŵp. Gofynnem am eu caniatâd cyn dechrau'r wers er mwyn iddynt ddewis os hoffant gymryd rhan mewn cyfweliad efo ni. Pwysleisiof fod ganddynt hawl i beidio cymryd rhan a ni fyddant yn elwa o'r profiad yma ond ein bod angen gwneud ymchwil bwysig gyda nhw. Cawsom ganiatâd wrth yr ysgol, yr athrawes dosbarth a'r disgyblion i recordio llais y disgyblion er mwyn inni ganolbwyntio ar y drafodaeth ac i'w dadansoddi nes ymlaen. Penderfynwyd bydd disgyblion a fydd yn hyderus i drafod gyda ni a mynegi barn eu hunan fydd y gorau i ddewis am y grŵp ffocws.

Adlewyrchu

I adlewyrchu ar ein gwersi defnyddiwyd Model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA) (Rolfe et al., 2001). Teimlom yr oedd hyn yn addas ar gyfer yr ymchwil ac oherwydd

rydym yn gwybod ac yn deall y model yma o'i defnyddio llawer yn ystod ein hymarfer dysgu eleni. Yn ôl Rolfe et al. (2001) mae'r BWA yn gofyn tri phrif gwestiwn, sef 1) beth? 2) felly? 3) beth nesaf? er mwyn annog unigolion i feddwl yn gyntaf am y wers (neu'r digwyddiad), gwerthuso a dadansoddi yn ail, ac i ddod i'r casgliad a meddwl am weithredoedd yn trydydd.

Cawsom ein hannog i adlewyrchu ar ein gwersi gan ddarlithydd o'r brifysgol.

Dywed adroddiad a ysgrifennodd Grigg a Lewis:

Advocates [that support reflective practice] point to the opportunities for practitioners to pause, revisit and learn from experience rather than continue to teach uncritically. If teachers and others do not reflect on and learn from their practice, they are likely to continue doing what they have always done (2017: 48).

Wrth inni adlewyrchu ar y wers gyntaf meddyliom am gyfaddasrwydd y dasg, y cyflawniad i'r wers a phennu meini prawf llwyddiant, y gefnogaeth oeddem yn gynnig i blant, y dulliau oeddem wedi'u defnyddio i hunanasesu ac asesu cyfoedion, y diweddglo a wnaeth atgyfnerthu'r meini prawf, cwestiynau'r cyfweiliad ac atebion y disgyblion iddynt. Roedd angen inni adlewyrchu ar bopeth er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r wers yn werthfawr ac yn cefnogi ein hymchwil. (Sonnir am yr hyn a drafodwyd nes ymlaen).

Ystyriaethau Moesegol

Wrth inni baratoi cynnal astudiaeth gwers roedd llawer o ystyriaethau moesegol i feddwl amdanynt. Yn gyntaf yr oedd angen inni gael caniatâd wrth yr ysgolion i gynnal gwersi ymchwil gydag ein dosbarth blaenorol. Ar ôl inni gael eu caniatâd yr oedd angen inni anfon llythyron i rieni'r plant a fydd yn cymryd rhan yn y gwersi i gael eu caniatâd. Pan gyrhaeddodd at yr ysgolion, esboniwyd y rheswm am ein hymweliad (gweler atodiad 2 am y script a ddefnyddiwyd gennyf). Esboniom ein

bod yn gwneud ymchwil bwysig a bod angen eu help. Rhoesom ddarn o bapur i bawb i ddarllen a llofnodi os oeddynt yn cytuno ac yn fodlon i gymryd rhan. Arnynt oedd y ddau ddatganiad rhain:

1. Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i gael fy arsylwi yn ystod y wers hon.
2. Rydw i'n hapus i gael cyfweiliad grŵp ar ôl y wers ac i gael fy recordio (llais yn unig - dim fideo) er mwyn i ____ a ____ cymryd nodiadau ar ôl y cyfweiliad.

Pwysleisiwyd bod ganddynt hawl i ddweud na ac na fyddwn yn grac neu yn eu siomi am benderfynu peidio cymryd rhan yn yr arsylwad neu'r cyfweiliad. Dilynom ddogfennu BERA (2011) a'r brifysgol (*Research Ethics & Integrity Code of Practice*, UWTSD 2017) er mwyn ein harwain i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd moesegol a chywir wrth gynllunio a pharatoi ein gwersi ymchwil

Ystyriom y risgiau a all ymddangos wrth inni gynnal ein hymchwil gyda'r disgyblion, ni fel yr ymchwilwyr a'r brifysgol. O ran y disgyblion, penderfynwyd dewis y disgyblion mwyaf hyderus a fydd yn gyfforddus i rannu syniadau allan o'r rhai ohonynt a wnaeth rhoi eu caniatâd i gymryd rhan yn y cyfweiliad. Cyn inni ddechrau'r cyfweiliad pwysleisiom iddynt fod hawl ganddynt i adael ar unrhyw adeg os maent yn dymuno. I osgoi unrhyw risg inni, penderfynom gynnal y cyfweiliadau mewn ardal agored yn y coridor er mwyn sicrhau bod athrawon yn gall ein gweld ac yn ffodus roedd camerâu yn recordio hefyd. Cytunwyd gennym i beidio nodi unrhyw enw (ysgol, athro/athrawes neu ddisgybl) neu rannu ein data er mwyn sicrhau cyfrinachedd, diogelwch ac i osgoi tarfu ar enw da'r brifysgol a'r bartneriaeth rhwyg y brifysgol a'r ysgolion penodol oherwydd ein proffesiynoldeb.

Astudiaeth gwers

Y wers gyntaf

Cynhaliwyd y wers gyntaf mewn ysgol ym Merthyr Tydfil yn nosbarth blwyddyn 5 gyda 25 o ddisgyblion. Ysgol fy mhartner oedd hon a dewiswyd tri

disgybl 'top' ac un disgybl 'canolig' ar gyfer ei grŵp ffocws. Y dasg oedd ysgrifennu hunan bortread ac i gwblhau pob elfen o'r meini prawf llwyddiant.

I bennu'r meini prawf trafodwn am y pethau gallant gynnwys yn eu hunan bortread, fel ansoddeiriau ac idiomau. Gofynnwyd amrywiaeth o ddisgyblion (gan gynnwys y pedwar disgyblion ffocws) i ateb a gofynnodd am enghreifftiau er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr ystyr (er enghraifft, cyflythreniad - llygaid llachar llawen glas). Yn ystod y cyflwyniad rhoddwyd amser i'r disgyblion meddwl er mwyn iddynt ateb, mynegi barn a chymryd rhan mewn pennu'r meini prawf llwyddiant. Cafodd y meini prawf llwyddiant eu gwahaniaethu yn addas ar gyfer tri grŵp o alluoedd gwahanol ac ar gyfer pob grŵp roedd her wahanol er mwyn eu gwrthwio i gynnwys yn eu gwaith er mwyn ei wella. Cyn dechrau'r wers gofynnwyd a oedd pawb yn ddeall amcan y wers a'u hateb oedd 'ydyn' felly dechreuodd y disgyblion y dasg.

Yn ystod y wers gweithiodd pawb yn hyderus heb fws neu ffwdan. Mynegodd y grŵp ffocws yn y cyfweiliad yr oedd y dasg yn hwyl iawn achos eu bod yn hoffi ysgrifennu a mynegi barn eu hunan. Roedd hyn yn adborth cadarnhaol a theimlwm bydd y dasg yn addas ar gyfer yr ail wers hefyd. Ar ôl tua ugain munud gofynnodd yr athrawes i orffen y frawddeg oeddynt yn ysgrifennu a dechrau darllen trwy eu gwaith eu hunan gan edrych ar y meini prawf llwyddiant. Roedd yr esboniad yn glir i bawb deall a gwnaeth pawb codi eu bodiau i ddangos eu bod yn deall beth sydd angen iddynt wneud. Hunanfarciwyd yn llwyddiannus a rhodd yr athrawes deg munud ychwanegol iddynt ysgrifennu mwy cyn iddynt farcio cyfoedion. Teimlais nad oedd y disgyblion wedi cael llawer o brofiad i farcio cyfoedion o flaen ond ar ôl ychydig o gymorth wrth yr athrawes roedd pawb yn gyfforddus i'w wneud. Wrth inni gael cyfweiliad gyda'r grŵp ffocws, dywedodd dau ddisgybl eu bod yn hoffi marcio gwaith eraill i'u helpu nhw gwella. Dyma rhai o'r dyfyniadau o ein cyfweiliad:

Pa ddull oedd well ganddo'ch, hunanfarcio neu farcio cyfoedion?

“Mae partner fi yn gwybod mwy na fi felly gall e helpu fi gan roi mwy o syniadau i fi.”

“Rydw i'n rhoi syniadau i fy mhartner i.”

“Hunanasesu, achos ni'n gallu gwneud yn siŵr bod y gwaith o safon dda.”

“Hunanasesu achos efallai bydd ffrind fi yn colli rhywbeth a dim yn marcio yn gywir.”

“Mae asesu gwaith rhywun arall yn dda i helpu nhw i gael safon uchel ond dwi ddim eisiau neb i ddwyn syniadau fi.”

Oeddech chi wedi ceisio gwella eich gwaith ar ôl i chi hunanasesu neu farcio gwaith eich ffrind?

Atebodd pawb ‘oedd’.

“Oni teimlo bod fi eisiau gwneud fy mhartner yn *proud* o fi, so dwi eisiau gwneud pethau da.”

“Gwelais mistakes felly gwnes i wella hynna.”

Yn gyffredinol maent yn gadarnhaol o ddefnyddio'r dulliau asesu, ac yn eu gweld fel modd i wella safon gwaith yn hytrach na feirniadu neu wawdio'u gwaith. Yn bendant maent yn poeni am ddisgyblion eraill yn dwyn eu syniadau ond o safbwynt athro/athrawes gall hyn bod o gymorth i godi safonau ysgrifennedig a chael y disgyblion i ddod i arfer defnyddio brawddegau gwell, geirfa fwy heriol a chreadigol.

Dengys y gwaith bod pawb wedi deall amcanion y wers a chyflwyno gwaith da iawn o ran safon. Canolbwyntiwyd ar y meini prawf llwyddiant a wnaeth sicrhau gwaith da. Dywedwyd yn y cyfweiliad roedd y meini prawf yn amlwg yn y wers (roedd pawb gyda'r meini prawf llwyddiant o'u blaen). Dywedodd un disgybl “Rydyn ni'n gallu edrych arno i *checko* os ni wedi gwneud hynna [*cynnwys yr elfen benodol*]”. Penderfynwyd roedd hyn yn ffordd dda o ddangos y meini prawf llwyddiant a sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn eu dilyn yn ystod y wers. Dewiswyd cadw hyn yr un ffordd am yr ail wers oherwydd cefnogwyd yr astudiaeth gwers yn dda iawn.

Teimlom yn hyderus ar ôl cynnal yr astudiaeth gwers gyntaf i barhau gyda'r cynllun gwreiddiol am yr ail wers. Dau beth benderfynwyd gwella oedd ar ôl marcio cyfoedion rhoi amser i'r disgyblion i drafod gyda'u partneriaid er mwyn iddynt fynegi barn am y gwaith a chynnig enghreifftiau o sut i wella er mwyn i'r asesiad bod o fwy o werth. Yr ail beth oedd addasu'r cwestiynau cyfweliad oherwydd bydd y disgyblion yn ifancaf felly bydd angen mwy o eglurhad arnynt i ateb y cwestiynau.

Yr ail wers

Cynhaliwyd yr ail wers mewn ysgol yn Rhondda Cynon-Taf yn nosbarth blwyddyn 3 gyda 17 o ddisgyblion. Amcan y wers oedd ysgrifennu am eu hunan (gan gynnwys eu diddordebau, son am eu ffrindiau, teulu a'u hanifeiliaid anwes ayyb.) ac i gynnwys pob elfen o'r meini prawf llwyddiant. Pythefnos Saesneg oedd y gwersi llythrennedd felly dysgais y wers yn Saesneg. Ar ôl derbyn eu caniatâd i gymryd rhan yn yr astudiaeth wers a'r cyfweliad penderfynwyd dewis tri disgybl 'top' sy'n hyderus a fydd yn fodlon mynegi eu barn yn glir ac un disgybl 'canolig' i gadw popeth union yr un peth. Pan adlewyrchom ni ar y cyfweliad penderfynom ni yr oedd cynnwys disgyblion hyderus sy'n fodlon rhannu syniadau'r dewis gorau er mwyn casglu tystiolaeth. Gweithiodd pawb i bennu'r meini prawf gydag ein gilydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010b). Paratowyd y meini prawf llwyddiant ar bapur i bob disgybl i gael copi o'u blaenau yn ystod y wers oherwydd gwnaeth hyn cael eu gwerthfawrogi yn yr astudiaeth gwers gyntaf. Gofynnais y disgyblion i godi eu bodiau i ddangos eu dealltwriaeth o amcanion y wers a'u dealltwriaeth o'r elfennau sydd angen eu cynnwys i gwblhau'r meini prawf llwyddiant. Dengys eu bod yn hyderus i ddechrau'r dasg.

Rhodd y cyfweiliad cyfle i ofyn cwestiynau priodol am y wers. Dengys yr oedd y gwaith yn addas iddynt:

Sut ydych chi'n teimlo aeth y wers heddiw?

“Da”

“Ie, da iawn”

“Da, achos oedd e'n waith hwyl i ysgrifennu am ni a beth ni'n hoffi a pham.”

Oeddech chi'n teimlo'n hyderus i ysgrifennu yn Saesneg?

“Mae'n hwyl iawn.”

Roedd cynnal yr astudiaeth gwers trwy'r Saesneg (eu hail iaith) yn boen ond dangosodd eu bod yn hapus a chyfforddus i ysgrifennu yn Saesneg. Gofynnwyd yr un cwestiynau a ofynnem i'r disgyblion yn y cyfweiliad cyntaf oherwydd casglwyd tystiolaeth gadarn o werth asesu ar gyfer dysgu. Dyma rhai o'r atebion a gasglwyd sydd o werth i ystyried am y pwysigrwydd o gynnwys meini prawf llwyddiant, hunanasesu ac asesu cyfoedion i gynyddu safon gwaith:

Ydych chi'n gallu esbonio beth yw'r geiriau meini prawf llwyddiant yn golygu? Success Criteria yn Saesneg.

“Beth sydd angen gwneud.”

“I ddangos beth ni mynd i wneud yn y gwaith.”

“Ein targedau am y gwaith.”

Beth ydych chi'n meddwl oedd y meini prawf yn gofyn ichi wneud heddiw?

“Defnyddio thesawrws a *openers* gwahanol.”

“A gwahanol gysyllteiriau.”

Pa ddull oedd well ganddo'ch, hunanasesu neu asesu cyfoedion?

“Hunanasesu achos mae'n haws.”

“Asesu gwaith rhywun arall oherwydd mae'n dda i weld gwaith rhywun arall fel i gael syniadau.”

“Dwi’n hoffi’r ddau. *[Pam wyt ti’n hoffi hunanasesu?]* Oherwydd dwi’n gallu gweld os dwi wedi cynnwys popeth yn y gwaith. *[Beth am asesu cyfoedion?]* Dwi’n gallu gweld beth mae rhywun arall wedi ysgrifennu.”

Sut ydych chi’n teimlo pan mae rhywun arall yn marcio eich gwaith?

“Hapus oherwydd maen nhw allu rhoi barn i chi a dweud y tro nesaf cofio rhoi hyn a hynna”

“Gall rhywun dweud ti wedi anghofio dweud hyn felly dwi’n gwybod bod angen hynna.”

Oeddech chi wedi ceisio gwella eich gwaith ar ôl ichi hunanasesu ac asesu cyfoedion?

“Oedd”

“Do, gwnaeth *enw disgybl* dweud bod angen i fi rhoi mwy o *adjectives* a rhesymau.”

“Gwnes i gynnwys mwy o openers a gwnaeth *enw disgybl* rhoi enghreifftiau i fi achos oni methu meddwl am rai”

Plentyn 3 oeddet ti wedi sylweddoli bod angen gwella rhywbeth yn dy waith ar ôl hunan asesu?

“Oedd. Roedd angen mwy o *connectives*.”

Roedd cynnal grŵp ffocws i gyfweld yn offer cefnogol iawn ar gyfer ein hymchwil oherwydd rydym yn dod i adnabod safbwyntiau’r disgyblion. Dengys y disgyblion eu bod yn canolbwyntio ar y meini prawf llwyddiant er mwyn gwella safon eu gwaith. Ar ôl hunanfarcio neu farcio gwaith eu partner dywedodd eu bod wedi ceisio gwella eu gwaith sy’n ganlyniad cadarnhaol ar gyfer defnydd a phwysigrwydd asesu. Wrth gael profiad o weithio yn yr ysgol gyda’r dosbarth oeddwn yn ymwybodol bod y disgyblion wedi gwneud y math o hunanasesu ac asesu cyfoedion yn barod felly helpodd eu profiad i gyflawni nod yr astudiaeth gwers. Teimlom yr oedd y meini prawf llwyddiant yn ganolog wrth iddynt ysgrifennu eu gwaith oherwydd mae’r mwyafrif ohonynt (15 allan o 17) yn cynnwys pob elfen o’r meini prawf ac yr oeddynt yn deall amcan y wers ar ôl cael cyflwyniad rhyngweithiol.

Trafodaeth

Darganfuwyd bod disgyblion yn elwa trwy ddefnyddio dulliau ar gyfer asesu oherwydd maent yn cefnogi'r meini prawf llwyddiant sydd yna i wella safon eu gwaith. Atebodd y grwpiau ffocws yn gadarnhaol am asesu gwaith eu hunan a gwaith rhywun arall ac yn dangos eu bod yn ymwybodol am bwysigrwydd y meini prawf llwyddiant. Dadleuwyd bod perthynas yn bodoli rhwng dulliau asesu ar gyfer dysgu a llwyddiant disgyblion CA2 o ran cyflawni'r meini prawf llwyddiant gennym. Gwnaeth y grŵp ffocws yn yr ysgol gyntaf (ym Merthyr Tydfil) dangos eu bod yn ymwybodol o'r effaith cadarnhaol o ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu ac yn deall eu bod yn helpu i wella safon eu gwaith. Roedd y safbwyntiau o'r ail ysgol (yn Rhondda Cynon-Taf) hefyd yn canmol ac yn dangos eu mwynhad wrth iddynt hunanasesu ac asesu cyfoedion oherwydd y gwerth i'u gwaith.

Rhwng 2005 a 2008 cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru astudiaeth beilot gan ganolbwyntio ar ddatblygu meddwl, ac yn fwy perthnasol, ar asesu ar gyfer dysgu. Dangosodd y canlyniadau welliannau ym mherfformiad dysgwyr a arweiniodd at ganlyniadau o ansawdd uwch a gwelliant mewn ymgysylltiad ym mhob dysgwyr yn eu dysgu eu hunain (Welsh Assembly Government, 2010a). Yn ei ddogfen maent yn nodi: "A wide variety of research in this area has clearly shown the gains to be made by children in both motivation and performance from employing assessment for learning strategies." (Welsh Assembly Government, 2010a: 7) sy'n yn hynod o berthnasol i'r canlyniadau cawsom wrth wneud y ddwy astudiaeth gwers.

Mae'n hanfodol i nodi bod angen adborth wrth y cyfoedion yn ogystal â thiciau ar y rhestr wirio er mwyn inni gael eu safbwyntiau, a fydd yn y pendraw yn eu helpu i ddatblygu. Teimlais yn falch pan oedd y grŵp ffocws am yr ail wers wedi dweud eu bod wedi elwa o gael adborth ar lafar wrth y disgyblion a oedd yn marcio eu gwaith

oherwydd mae'n arwain y disgyblion i adnabod eu camau nesaf a sut i wella eu gwaith. Atgyfnerthwyd yr awgrymiad yma mewn adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010a).

Dengys y disgyblion yn y ddwy ysgol eu bod yn ymwybodol o feini prawf llwyddiant a pham mae'n bodoli. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn aml a'u bod yn ddeall ei ddefnydd cadarnhaol ar eu gwaith.

Casgliad

Atgyfnerthodd y canlyniadau o'r astudiaethau gwerau yr ymchwil blaenorol ar y pwnc o asesiad ffurfiannol/asesu ar gyfer dysgu. Dengys yr astudiaeth bod perthynas rhwng dulliau asesu a chyflawnder disgyblion i gynnwys y meini prawf llwyddiant. Dengys arfer da o'r un fath gan Ysgol Gymunedol Doc Penfro (Estyn, 2006) fel yr wyf wedi son am yn barod. Canmolodd Estyn (2006) bod dulliau asesu yn annog disgyblion i ymgeisio i ddysgu a chymryd heriau er mwyn gwella eu gwaith, a bod y disgyblion yn ymwybodol o'u hanghenion dysgu ac yn awyddus iawn i lwyddo ac yn gwybod sut i wneud hyn.

Mae'r canlyniadau yn blaenoriaethu'r angen i ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu er mwyn i athrawon cefnogi eu disgyblion i lwyddo. Yn bendant oeddem yn ffodus iawn bod y disgyblion yn ymwybodol o'r dulliau asesu a ddefnyddiwyd. Pwysleisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010a) bod angen i ddisgyblion ymarfer a dod i arfer defnyddio dulliau asesu er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac ystyrlon. Roedd y disgyblion yn hyderus iawn i hunanfarcio a marcio gwaith eu cyfoedion a wnaeth sicrhau bod ein tystiolaeth yn werthfawr a dibynadwy i eraill ystyried.

Teimlwyd bod y dulliau a defnyddiwyd yn addas ar gyfer casglu tystiolaeth am y prosiect ymchwil ond bydd rhai yn dadlau nid yw cyfweld a disgyblion yn ddull

dibynadwy. Byddant yn dadlau am y cyfwelwyr; yn dweud eu bod yn rhoi signalau anymwybodol i'r disgyblion neu'n rhwystro'r disgyblion i ateb oherwydd llais yn unig oeddem wedi recordio. Rheswm arall gall tystiolaeth o'r cyfweiliad cael eu gweld yn annibynadwy yw'r ffordd mae'r disgyblion yn cytuno a syniadau'r disgyblion eraill. Fodd bynnag, dywedodd Breen: "one-to-one interviews ought to probe individual experiences, encouraging self-reflection on issues that could be distorted if social pressure were placed on the individual" (2006: 466) felly oeddem am osgoi'r disgyblion teimlo dan bwysau a gwnaethom ystyried y posibilrwydd o ddisgyblion teimlo dan bwysau a nodwyd yn y ffurflen moeseg gennym. Credom roedd cyfweiliad gyda grŵp ffocws yn fantais ar gyfer ein hymchwil. Canolbwtiom ar y rhinweddau cadarnhaol o gyfweld a disgyblion, sy'n cynnwys y gallu i siarad am rywbeth yn fanwl ac mewn dyfnder, ychwanegu ar bwyntiau rhywun arall, gofyn am eglurhad o gwestiwn, siarad mewn awyrgylch anffurfiol gyda phobl gyfarwydd, mae'n haws i recordio ac i ofyn cwestiynau ni heb feddwl amdanynt tan fod disgybl wedi codi ymwybyddiaeth ohono. Yn bendant roedd hyn y dull gorau i gasglu syniadau a barn am brofiadau'r disgyblion yn hytrach na ddefnyddio holiadur er enghraifft. Fel soniwyd yn gynharach, roedd y rhestr gwirio a ddefnyddiwyd yn addas i gynorthwyo ein harsylwadau ni theimlom yn gyfyng oherwydd roedd digon o le i ysgrifennu nodiadau o'r hyn oeddem wedi arsylwi.

Wrth imi adfyfrio ar yr astudiaethau gwers, rwyf yn teimlo gall y dystiolaeth o'r cyfweiliadau cael eu cyffredinoli oherwydd disgyblion sy'n ymateb ac yn cyflwyno gwaith da oedd y rhain. Y tro nesaf byddaf yn dewis disgyblion gydag amrywiaeth o alluoedd. Byddaf yn dal i ddewis disgyblion hyderus ond credaf bydd cynnwys disgybl sy'n cael ei ystyried fel disgybl 'gwan' yn dda er mwyn cael safbwyntiau gwahanol. Er enghraifft os nad ydy'r disgybl gwan yn ymwybodol o werth y meini

prawf llwyddiant neu sut i weithredu ar ôl hunanasesu neu asesu cyfoedion efallai bydd hyn yn dangos yn eu gwaith a'u barn yn y cyfweiliad.

Argymhellion

Mae'r prosiect ymchwil wedi bod hynod o ddefnyddiol ar gyfer fy nealltwriaeth am y pwysigrwydd o asesu ar gyfer dysgu a hefyd y dylanwad a'r defnyddioldeb o feini prawf llwyddiant i annog y disgyblion i wella eu gwaith. Yr wyf yn ymwybodol o'r effaith a dylanwad mae hunanasesu ac asesu cyfoedion yn cael ar safonau gwaith disgyblion, enwedig hunanfarcio a marcio cyfoedion.

Ar gyfer fy lleoliad nesaf a fy nhyrfa yn y dyfodol byddaf yn blaenoriaethu a phrofi ymhellach asesu ar gyfer dysgu fel modd i gefnogi fy nisgyblion i ddatblygu a chyflawni.

Oes oedd cyfle i wneud yr astudiaeth gwers yma eto, hoffwn ddefnyddio dau ddull gwahanol er mwyn cymharu eu heffaith ar safon gwaith y plant i weld pa ddull yw'r un gorau. Canolbwyntiwyd ar hunanfarcio a marcio cyfoedion yn y ddwy wers er mwyn casglu tystiolaeth o'r patrymau/agweddau sy'n codi ac oherwydd rydym yn ymwybodol bod y disgyblion yn arfer i'r dulliau rhain. Credir bydd y disgyblion yn elwa o ddefnyddio gwahanol fathau o asesu ar gyfer dysgu er mwyn iddynt ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o'u gwendidau a'u cryfderau.

Argymhelliad arall bydd i ofyn i'r disgyblion i bennu meini prawf llwyddiant eu hunain, yn hytrach na fel dosbarth. Dengys ymchwil bod yr arfer yma yn cael effaith cadarnhaol ar hyder, cymhelliad ac ymdrech y disgyblion, eu hunan-barch a'u perchenogaeth o'u gwaith. O ganlyniad maent yn cyflwyno gwaith o safon uchel ac yn ddysgwyr mwy annibynnol (Clarke, 2009).

Er mwyn rhannu'r arfer da a ddengys fy nghanlyniadau hoffwn i son amdanynt i fy nghyfoedion yn y brifysgol. Credir byddwn yn elwa o rannu ein gwaith ymchwil gydag ein gilydd er mwyn inni ddod i adnabod arferion da i gynnwys a blaenoriaethu yn ein gwersi. Mae'r modiwl hwn wedi atgyfnerthu'r pwysigrwydd i gynnal astudiaeth gwrs er mwyn inni adlewyrchu ar ein harferion er mwyn sicrhau ein bod yn hwyluswyr effeithiol a gwneud yn siŵr bod ein disgyblion yn cyflawni eu potensial.

Llyfryddiaeth

BERA (2011). Revised Ethical Guidelines for Educational Research. British Educational Research Association. UK

Black, P. J., & Wiliam, D. (1998). *Inside the black box: Raising standards through classroom assessment*. London: nferNelson

Black, P.J., & Wiliam, D. (2009). 'Developing a theory of formative assessment', *Educational Assessment, Evaluation and Accountability*, 21, 1, pp.5-31

Breen, R. L. (2006). 'A Practical Guide to Focus-Group Research', *Journal of Geography in Higher Education*, 30, 3, pp.463-475

Clarke, S. (2009). 'Mexborough Highwoods Primary School Focus of the Case Study'. Available at: <http://www.shirleyclarke-education.org/research/learning-objectives-and-success-criteria-2009/> [Accesed: 11/04/2016]

Crooks, T. J. (1988). 'The impact of classroom evaluation practices on students', *Review of Educational Research*, 58, 4, pp.438-481

Danby, S. J., Ewing, L. & Thorpe, K. J. (2011) 'The novice researcher: Interviewing young children', *Qualitative Enquiry*, 17, 1, pp.74-84

Donaldson, G. (2015). Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. Cardiff: Welsh Assembly Government

Dudley, P. (2014). Lesson Study: Professional learning for our time. London: Routledge.

Estyn (2016) Annog dysgwyr annibynnol. Ar gael ar-lein:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/annog-dysgwyr-annibynnol> [Gwelwyd
09/04/2018]

Grigg, R & Lewis, H. (2017). 'Is reflective practise worth all the effort?', *Imaginative Minds*, 7, 6, pp.46-51

Herr, J. (1998). Working with Young Children. Illinois: The Goodheart-Willcox Company

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010b). Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell dosbarth? Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Natriello, G. (1987). 'The impact of evaluation processes on students', *Educational Psychologist*, 22, 2, pp.155-175

Rolfe, G., Freshwater, D. & Jasper, M. (2001). Critical reflection in nursing and the helping professions: a user's guide. Basingstoke: Palgrave Macmillan

Shepard, L. A., Hammerness, K., Darling-Hammond, L., Rust, F., Snowden, J. B., Gordon, E., et al. 'Assessment' in L. Darling-Hammond & J. Bransford (eds), (2005) *Preparing teachers for a changing world: What teachers should learn and be able to do*. San Francisco, CA: Jossey-Bass, pp.275-326

University of Wales Trinity Saint Davids (2017). Research Ethics & Integrity Code of Practice. Online: <http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> [Accesed:
11/04/2018]

Welsh Assembly Government (2010a). Why develop thinking and assessment for learning in the classroom? Cardiff: Welsh Assembly Government

Wiliam, D. 'Keeping learning on track: Classroom assessment and the regulation of learning', in F. K. Lester, Jr., (ed), (2007) *Second handbook of mathematics teaching and learning*. Greenwich, CT: Information Age Publishing, pp.1053-1098

Atodiad

Atodiad 1

Taflen arsylwi

Disgwyliadau o ran y plentyn targed ar gyfer y dasg:

P1	P2
P3	P4

Ydy'r plant wedi gwrandao a deall y cyflwyniad?

Dull a ddefnyddiwyd i hunanasesu =

P1	P2
P3	P4

Eu cyfraniad i'r wers

P1 Ateb cwestiynau Gofyn cwestiynau Helpu eraill	P2 Ateb cwestiynau Gofyn cwestiynau Helpu eraill
P3 Ateb cwestiynau Gofyn cwestiynau Helpu eraill	P4 Ateb cwestiynau Gofyn cwestiynau Helpu eraill

Faint o gymorth ydy'r plant targed yn derbyn wrth yr athrawes a pha fath?

P1	P2
P3	P4

Ymdrechu i hunanasesu:

P1	P2	P3	P4

Ymdrechu i gyd-asesu:

P1	P2	P3	P4

Ydy'r meini prawf yn ganolbwynt yn eu gwaith?

P1	P2	P3	P4

Ydy eu gwaith wedi gwella ar ôl asesu? (Ydyn nhw wedi cymryd mwy o sylw i'r meini prawf gan gynnwys y mwyafrif o'r gofyniadau?)

P1	P2	P3	P4

Ydy'r plant targed wedi llwyddo wrth:

Hunanasesu

P1	P2	P3	P4

Asesu cyfoedion

P1	P2	P3	P4

Sylwadau	
P1	P2
P3	P4

Adfyfyrio

Atodiad 2 -

Sgript

Rydw i wedi dod heddiw i weld chi oherwydd mae angen i fi a fy ffrind Miss ... gwneud prosiect ymchwil sy'n waith pwysig pwysig iawn! Ydych chi'n gwybod beth yw'r gair ymchwil yn golygu? Felly bydd Miss James yn eistedd yng nghefn y dosbarth trwy'r wers yn edrych arnaf a hefyd edrych arnoch chi yn ystod y wers ac ar eich gwaith. Cyn inni ddechrau, mae angen eich caniatâd er mwyn inni arsylwi chi yn y dosbarth. Ydych chi'n gwybod beth yw arsylwi yn golygu? Does dim angen ichi gymryd rhan yn yr arsylwad - mae ganddoch chi'r hawl i eithrio neu i gymryd rhan. Byddaf yn dosbarthu hwn (y daflen cofnodi) er mwyn ichi ddarllen a thicio'r blychau rydych yn cytuno a. Er enghraifft, mae'r blwch cyntaf yn dweud: "Rydw i'n hapus i gael fy arsylwi yn ystod y wers". Ydy hynna'n ddigon eglur? Bydd rhaid i chi aros fan hyn ac ymuno yn y wers ond byddwn ni ddim yn canolbwyntio arnoch chi fel petai. Yr ail ddatganiad yw: "Rydw i'n hapus i ateb cwestiynau ac i'm llais cael ei recordio petawn i'n cael fy newis i fod yn rhan o'r grŵp ffocws". Efallai byddaf yn gofyn i rai ohonoch chi, tua 4 ohonoch chi, i ddod i gael sgwrs gyda fi a Miss James ar ôl y wers. Bydd rhaid i chi fynegi eich barn a rhannu syniadau ac oherwydd dydw i neu Miss James ddim yn gallu ysgrifennu yn gyflym iawn byddem yn recordio eich llais yn unig, nid eich wynebau er mwyn inni wrando'n ôl a gwneud nodiadau ar yr hyn byddwch chi wedi eu dweud.